

Gweithdrefnau i Gyflenwyr Newydd

Dim ond ar gyflenwyr sy'n bodoli eisoes ar system Agresso y dylid codi archebion prynu. Os oes angen cyflenwr newydd, yna mae'n rhaid dilyn y weithdrefn hon.

Peidiwch â chyhoeddi archeb brynu arferol nes bod y cyfrif newydd wedi cael ei gymeradwyo gan yr adran gaffael.

1. Llenwch y ffurflen atodedig 'ffurflen gais am gyflenwr newydd'. Mae'n bwysig datgelu'n llawn y math o nwyddau neu wasanaethau y bydd y cyflenwr newydd yn eu darparu a pha fath o fusnes mae'r cyflenwr ynddo.
2. Sganiwch ac e-bostiwch y ffurflen wedi ei llenwi fel y nodir ar y ffurflen.
3. Bydd yr adran gaffael yn gwirio'r cais am gyflenwr newydd. Gan ddibynnu ar y math o nwyddau neu wasanaethau a ddarperir a'r math o fusnes, mae'n bosib y bydd y camau canlynol yn digwydd:
 - a. Caiff y cyflenwr newydd ei gymeradwyo a'i osod ar Agresso. Anfonir cyngor at y sawl a wnaeth y cais a gellir codi archebion prynu.
 - b. Ni chaiff y cyflenwr newydd ei gymeradwyo a rhoddir gwybod am gyflenwr amgen sy'n bodoli eisoes.
 - c. Os yw'r cyflenwr yn dod o fewn cwmpas y rheolau cyfryngol newydd, gwneir gwiriadau ychwanegol yn uniongyrchol gyda'r cyflenwr.
 - i. Cysylltir â'r cyflenwr a gofynnir iddo gadarnhau'r math o fusnes sydd ganddo a gofynnir iddo lenwi'r ffurflen 'HMRC Employment Status Check for Tax' ar-lein yn <https://www.gov.uk/guidance/check-employment-status-for-tax>.
 - ii. Bydd y cyflenwr yn dychwelyd y wybodaeth a chopi o'r penderfyniad.
4. Bydd y Swyddfa Gyllid yn gwirio'r penderfyniad. Gall yr adran geisio gwybodaeth ychwanegol er mwyn dilysu'r penderfyniad.
 - a. Os yw'r cyflenwr yn gwmni cyfyngedig neu'n bartneriaeth a'r tu allan i gwmpas y ddeddfwriaeth newydd neu os nad yw Cyllid a Thollau EM yn gallu gwneud penderfyniad ac os yw'r holl wiriadau eraill yn ffafriol, caiff cofnod ei greu i gyflenwr newydd. Anfonir hysbysiad am hyn a gellir codi archebion prynu.
 - b. Os yw'r cyflenwr yn unig fasnachwr naill ai o dan enw masnachu neu fel unigolyn ac yn cael ei bennu fel hunangyflogedig neu os nad yw Cyllid a Thollau EM yn gallu gwneud penderfyniad. Caiff cofnod ei greu i gyflenwr newydd. Anfonir hysbysiad am hyn a gellir codi archebion prynu.

- c. Os yw'r cyflenwr yn gwmni cyfyngedig neu'n bartneriaeth ac o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth newydd. Caiff yr adran a'r cyflenwr wybod am y broses gyflogaeth dybiedig (gweler diwedd y ddogfen hon). Mae hyn yn golygu y bydd rhaid i'r brifysgol ddiwynnu treth ac Yswiriant Gwladol o'r anfoneb a hefyd talu Yswiriant Gwladol cyflogwr (tua 14%) i Gyllid a Thollau EM. Ni chaiff cofnod ei greu i gyflenwr newydd.
- d. Os yw'r cyflenwr yn unig fasnachwr naill ai o dan enw masnachu neu fel unigolyn ac yn cael ei bennu fel cyflogedig. Caiff yr adran a'r cyflenwr wybod a chaiff taliadau eu gwneud trwy'r gyflogres.
 - i. Os yw'r gwaith am lai na 3 mis, gellir defnyddio'r drefn 'ffurflen binc' ar y gyflogres achlysurol.
 - ii. Os yw'r gwaith am fwy o amser, yna bydd rhaid i chi gysylltu ag AD i ddechrau'r broses recriwtio. Bydd yr unigolyn yn gyflogedig gan y brifysgol ynghyd â'r holl hawliau cyflogaeth sy'n dod yn sgil hynny.
- 5. Pan fydd yr adran a'r cyflenwr yn cytuno ar y broses gyflogaeth dybiedig, yna bydd rhaid dyrannu rhif cyflogres i'r cyflenwr a chodi archeb arbennig yn erbyn y rhif cyflogres yn adran logisteg Agresso. Rhaid i'r archeb arbennig hefyd gynnwys y penderfyniad a'r telerau talu. Bydd y cyflenwr yn cyflwyno anfonebau ynghyd â ffurflen gyflogaeth dybiedig i'r adran am awdurdodiad â llaw a thaliad gan adran gyflogres y Swyddfa Gyllid.
- 6. Os na fydd yr adran neu'r cyflenwr yn cytuno ar y telerau cyflogaeth dybiedig neu'r telerau cyflogi, yna bydd rhaid i'r adran chwilio am gyflenwyr eraill.
- 7. Bydd diffyg cydymffurfio ar ran yr adran yn arwain at oedi cyn talu unrhyw gyflenwr heb eu cymeradwyo. Caiff yr anfoneb ei dal yn ôl nes bydd y broses benderfynu lawn wedi ei chwblhau. Codir unrhyw gostau ychwanegol ar yr adran ac adroddir am y mater i bennaeth yr adran fel achos o dorri'r weithdrefn ariannol.

Proses Gyflogaeth Dybiedig

1. Bydd rhaid i'r gyflogres roi rhif cyflogres i'r gyflogaeth dybiedig a gytunir arni rhwng yr adran a'r cyflenwr, er mwyn caniatáu i archeb arbennig gael ei chodi yn erbyn y rhif cyflogres newydd.
2. Telir anfoneb y cyflenwr trwy'r gyflogres, gan ddiwynnu treth ac Yswiriant Gwladol o gyfanswm trethadwy'r anfoneb (mae hyn yn eithrio deunyddiau a TAW). Bydd rhaid talu Yswiriant Gwladol cyflogwr i Gyllid a Thollau EM.
3. Ni fydd y cyflenwr yn weithiwr cyflogedig ac ni fydd ganddo unrhyw hawliau cyflogaeth megis tâl salwch a thâl gwyliau.

4. Dyma'r telerau talu: telir unrhyw anfoneb (a ffurflen awdurdodi cyflogaeth dybiedig) a dderbynnir yn y Swyddfa Gyflogres erbyn y 10fed o unrhyw fis trwy BACS ar ddiwrnod gwaith olaf y mis hwnnw.
5. Bydd y cyflenwr yn cyflwyno anfoneb ynghyd â ffurflen gyflogaeth dybiedig wedi ei llenwi i'r adran.
6. Bydd yr adran yn cadarnhau cywirdeb yr anfoneb ac yn llofnodi'r blwch cymeradwyo. Dylid anfon yr anfoneb ynghyd â ffurflen gyflogaeth dybiedig i adran gyflogres y Swyddfa Gyllid.
7. Bydd yr adran gyflogres yn creu cyfrif yn seiliedig ar y manylion ar y ffurflen gyflogaeth dybiedig, ac yn atodi'r cyfrif i swydd IR35 ar y gyflogres achlysurol.
8. Bydd yr adran gyflogres yn nodi cyfanswm trethadwy'r anfoneb, cost deunyddiau a TAW fel mewnbwn amrywiol ac yn prosesu hynny wrth redeg y gyflogres. Caiff treth ac Yswiriant Gwladol eu didynnu i greu taliad net i'r cyflenwr. Caiff y didyniadau hyn ynghyd ag Yswiriant Gwladol cyflogwr ychwanegol eu talu i Gyllid a Thollau EM ac adroddir arnynt trwy'r ffeil RTI misol.
9. Anfonir slip cyflog i'r cyflenwr sy'n nodi'r cyfanswm net (ac yn cynnwys rhif yr anfoneb)
10. Caiff y taliad ei brosesu trwy BACS yn uniongyrchol i'r cyfrif banc a nodir ar y ffurflen gyflogaeth dybiedig.
11. Codir cost gros yr anfoneb a'r costau ychwanegol o Yswiriant Gwladol cyflogwr ar y cod ar y ffurflen gyflogaeth dybiedig a chod y cyfrif 445.
12. Gyda'r anfoneb derfynol, anfonir P45 hefyd at y cyflenwr a chaiff y cyfrif cyflogres ei gau.
13. Rhaid i unrhyw drefniant yn y dyfodol ddilyn y weithdrefn i gyflenwyr newydd gan fod rhaid cael penderfyniad ar wahân i bob trefniant o'r fath.

IR35 - Ffurflen Cyflogaeth Dybiedig Prifysgol Bangor

Dylid anfon y ffurflen hon gyda'ch anfoneb busnes. Mae'n darparu gwybodaeth ddigonol i ganiatáu i'r brifysgol (neu i is-gwmnïau sy'n llwyr eiddo i'r brifysgol) ddi-dynnu treth ac Yswiriant Gwladol o swm eich anfoneb a chofnodi'r didyniadau gyda'r HMRC. Gweler y nodiadau drosodd.

Anfonwch yr anfoneb a'r ffurflen wedi'i llenwi i'r person cyswilt yn yr adran i'w hawdurdodi.

Rhif gorchymyn prynu	
Rhif(au) Anfoneb	
Ai dyma'r anfoneb olaf am y gwaith hwn?	Ie <input type="checkbox"/> Na <input type="checkbox"/>
Manylion personol y gweithiwr	
Teitl (Mr/Mrs etc.)	
Enw llawn	
Cyfeiriad personol (yn cynnwys cod post)	
Dyddiad geni	
Rhif Yswiriant Gwladol	
Cod didoli'r banc (6 rhif)	
Rhif cyfrif banc (8 rhif fel rheol)	
Iaith gohebu	Cymraeg <input type="checkbox"/> Saesneg <input type="checkbox"/>

Mae'r cais am P45 yn berthnasol i'r taliad cyntaf am y gwaith yn unig

Rwyf yn amgáu P45 dilys gan gyflogwr blaenorol	Ydw <input type="checkbox"/> Nac ydw <input type="checkbox"/>
------------------------------------------------	---------------------------------------------------------------

Gwybodaeth bwysig am y gwaith a'r telerau talu

O dan y penderfyniad, mae'r gwaith o fewn cwmpas y Ddeddf Cyfryngwyr ac mae'n gyflogaeth dybiedig, y mae'n rhaid i ni ddi-dynnu Treth ac Yswiriant Gwladol ohoni. Bydd rhaid i ni hefyd dalu Yswiriant Gwladol cyflogwr ychwanegol ac Ardoll Brentisiaethau ar y swm trethadwy.

Er eglurder, nid ydych yn un o gyflogwyr y Brifysgol (neu un o'r is-gwmnïau sy'n llwyr eiddo i'r